

PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC 03-01 (t3)

Dyddiad: Dydd Mercher 14 Chwefror 2001

Amser: 15.05-15.35

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Bae Caerdydd

Teitl: Diweddariad ar yr Ymddiriedolaeth Carbon

Diben

1. Diweddarau'r Pwyllgor ar y datblygiadau wrth sefydlu Ymddiriedolaeth Carbon (Cymru) fel rhan o Ymddiriedolaeth Carbon (DU), yn cynnwys y cynigion ar gyfer rhaglen cyflenwi gwasanaeth wedi ei deilwra i ddiwallu anghenion Cymru.

Crynodeb

2. Bydd Ymddiriedolaeth Carbon (DU) yn gwmni annibynnol nid er elw, a ariennir gan yr hyn a dderbynnir trwy'r dreth newid yn yr hinsawdd (Climate Change Levy). Bydd hefyd yn gyfrifol am hybu mwy o fusnesau, a mudiadau eraill, i fanteisio ar dechnoleg carbon isel ac mae'n 'cyd-fynd' â chynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad, "dysgu byw'n wahanol". Mae'r Cynulliad yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth i sefydlu swyddfa yng Nghymru a chynllun cyflenwi gwasanaeth ar gyfer Cymru. Mae llawer o waith yn mynd rhagddo yn awr, gyda'r amserlen yn dynn, a gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r cynnydd hyd yma a'r gwaith mewn llaw.

Amseriad

3. Bydd yr Ymddiriedolaeth Carbon yn cael ei sefydlu dros yr wythnosau nesaf a bydd yn dechrau gweithredu yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2001 a bydd yn cynnwys swyddfa yn Nghymru. Y bwriad yw y bydd Cadeirydd/Is Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth a'r Rheolwr yng Nghymru yn diweddarau'r Pwyllgor ar drefniadau cyflenwi gwasanaeth cyn y gwyliau.

Cefndir

4. Bydd y Dreth Newid yn yr Hinsawdd yn cael ei chyflwyno o 1 Ebrill 2001. Ceir manylion llawn am y dreth ac amrywiaeth o faterion cysylltiedig yn Atodiad 1, "Y Dreth Newid yn yr Hinsawdd – Canllawiau i Ddiwydiant, Masnach a'r Sector Cyhoeddus". Cynhyrchwyd y canllawiau ar gyfer cyfres o gynadleddau ynghylch y dreth a materion eraill a

gynhaliwyd gan y Cynulliad fel rhan o'i ymgyrch Busnes a'r Amgylchedd (cofrestrodd dros 300 o gynrychiolwyr).

5. Nid yw'r papur hwn yn ymdrin â manteision cyflwyno'r dreth. Y pwynt dechreuol ar gyfer y papur yw'r ffaith y cyflwynir y dreth ar 1 Ebrill a'r angen dilynol i ailgylchu'r refeniw yng Nghymru – o gofio bod llywodraeth y DU wedi dweud y bydd y dreth yn niwtral o ran trethi. Bydd y refeniw a godir, £1 biliwn, yn cael ei ailgylchu trwy gwtogiad 0.3% mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phecyn o fesurau gwerth £150m i annog datblygiad technoleg carbon isel. Mae'r pecyn yn cynnwys tua £30m ar gyfer sefydlu Ymddiriedolaeth Carbon y DU (gweler adran 4 yn Atodiad 1).

Ymddiriedolaeth Carbon y DU

6. Cynigiodd y Pwyllgor Ymgynghorol Busnes a'r Amgylchedd, a arweinir gan fusnes ac sy'n cynghori'r llywodraeth ar amrediad o faterion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â busnes, y syniad y dylid sefydlu Ymddiriedolaeth Carbon yn 1999 (tudalen 7, Atodiad 1). Gofynnwyd i'r Pwyllgor Ymgynghorol ddatblygu ei gynig ac yn dilyn ymgynghoriad cytunodd y Gweinidog i sefydlu'r Ymddiriedolaeth ac fe'i cyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ym mis Hydref 2000. Ers hynny mae swyddogion wedi bod yn llunio cynigion wedi eu hanelu at deilwra cyflenwi gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth i ddiwallu anghenion Cymru.
7. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwmni preifat, newydd, annibynnol, nid er elw, cyfyngedig trwy warant. Bydd yn ailgylchu hyd at £313 miliwn o'r arian treth newid yn yr hinsawdd (yn cynnwys y cynllun lwfans cyfalaf estynedig gwerth £100m (Adran 10, Atodiad 1)). Y nod yw cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar dechnolegau carbon isel, cost effeithiol (y technolegau hynny sy'n isafu'r defnydd o danwyddau wedi eu seilio ar garbon e.e. systemau Gwres a Phwer cyfun) a mesurau eraill gan fusnes ac eraill sy'n talu'r dreth. Bydd hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am elfennau annomestig y Rhaglen Arfer Orau o ran Effeithlonrwydd Egni sy'n weithredol ledled y DU (Adran 13, Atodiad 1), ar 1 Ebrill 2001.
8. Nod yr Ymddiriedolaeth fydd sefydlu a chynnal rhaglen integredig o fesurau i gyflymu'r ymchwil, y defnydd a'r nifer sy'n manteisio ar dechnolegau carbon isel a mesurau arbed egni. Bydd gan yr Ymddiriedolaeth amcanion amgylcheddol a masnachol deul:
 - Amgylcheddol – lleihau allyriadau CO₂, uchafu'r defnydd effeithlon o adnoddau.
 - Masnachol – gwella sefyllfa gystadleuol diwydiant yn y tymor byr, cwtogi costau ynni yn y tymor hir, a pharatoi ar gyfer economi carbon isel e.e. cyflwyno amcanion cynhyrchion newydd.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgyrraedd at yr amcanion hyn trwy weithredu

uniongyrchol yn cynnwys:

- Addysg – busnes a'r gweithlu
- Cyngor effeithlonrwydd egni a rheoli technoleg trwy'r

Rhaglen Arfer Orau ar
Effeithlonrwydd Egni
ledled y DU

- Cymhellion ariannol – bydd yr Ymddiriedolaeth yn

gweinyddu'r cynllun
lwfansau cyfalaf
estynedig gwerth
£100m

- Darparu neu ganfod cyfalaf
- Cyllido prosiectau Ymchwil a Datblygu
- Dod â masnach a gwaith ymchwil ynghyd
- Darparu'r canolbwynt ar gyfer cwtogi allyriadau mewn

diwydiant/masnach

Ceir rhagor o fanylion am elfennau prif raglen waith yr Ymddiriedolaeth yn Atodiad 2.

8. Mae Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR) a'r Pwyllgor Ymgynghorol Busnes a'r Amgylchedd wedi arwain y paratodau ar gyfer sefydlu'r Ymddiriedolaeth ar lefel DU, ond maent yn ymgynghori'n fanwl â'r Cynulliad o ran penderfyniadau allweddol megis cyfansoddiad a rheolaeth gorfforaethol y cwmni a phenodi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Yn wir, yn ystod cynhadledd diweddar croesawodd llefarydd ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol "y gwerth ychwanegol roedd y Cynulliad yn ei gyfrannu i'r trafodaethau".
9. Caiff yr Ymddiriedolaeth ei sefydlu fel cwmni preifat, y tu allan i'r Llywodraeth ond caiff ei chefnogi ganddi. Y Darpar Gadeirydd a'r Darpar Ddirprwy Gadeirydd a gaiff eu cyhoeddi'n fuan ynghyd â'r Prif Swyddog Gweithredol a gaiff ei benodi'n fuan fydd yn pennu sut fydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu. Er gwaethaf hyn, ac er mwyn ceisio

sicrhau fod cangen o'r Ymddiriedolaeth yn weithredol yng Nghymru ar 1 Ebrill, bu swyddogion yn gweithio ar y trefniadau ar gyfer sefydlu Ymddiriedolaeth Garbon (Cymru). Mae'r darpar Ddirprwy Gadeirydd wedi cytuno, mewn egwyddor, i'r cynigion bras.

Ymddiriedolaeth Carbon yng Nghymru

10. Roedd y Gyllideb a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 7 Rhagfyr yn cynnwys £1.5m ar gyfer cynnal yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru yn 2001-02 a £1.75m ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol ganlynol. Cytunwyd mewn egwyddor y bydd y Cynulliad, yn y flwyddyn gyntaf, yn defnyddio'r £1.5m a glustnodwyd i "brynu cyfran" yn Ymddiriedolaeth Carbon y DU cyn belled a'i bod yn sefydlu mecanweithiau cyflenwi gwasanaeth i ddiwallu anghenion Cymru. Mae'r mecanweithiau cyflenwi gwasanaeth hynny yn cynnwys:

Cynrychiolaeth ar bob lefel gorfforaethol – gofynnir i'r Cynulliad ddod yn aelod o'r Ymddiriedolaeth. Fel aelod, bydd gan y Cynulliad yr hawl i benodi Cyfarwyddwr anweithredol i'r Bwrdd. Bwriedir penodi un o uwch swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Sefydlu swyddfa yng Nghymru – er mwyn hwyluso cyflenwi'r gwasanaeth yn lleol bwriedir sefydlu swyddfa "Ymddiriedolaeth Carbon Cymru" wedi ei staffio'n briodol o dan arweiniad Rheolwr dros Gymru a thîm o gyflenwyr gwasanaeth rhyngweithiol gan gynnwys rhai gwasanaethau presennol e.e. tîm y Cynulliad o ymgynghorwyr ynni a busnes. Fel cyflenwr bydd yr Ymddiriedolaeth yn rhan annatod o'r fframwaith Cyswllt Busnes (neu unrhyw gyfrwng sy'n ei olynu) a bydd angen cydweithio'n agos â darparwyr gwasanaethau eraill cysylltiedig yn cynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, Canolfan yr Amgylchedd Cymru, yr Asiantaethau Egni yng Nghymru, *Groundwork* Cymru a'r Ymddiriedolaeth Arbed Egni.

Datblygu Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth i Gymru – disgwylir i Ymddiriedolaeth Carbon (Cymru) ddatblygu a chyflenwi cynllun cyflenwi gwasanaeth, gyda chostau, wedi ei deilwra i anghenion Cymru a chan ystyried barn y rhai â diddordeb ledled Cymru. Er mwyn ysgogi trafodaeth mae swyddogion wedi darparu drafft cyntaf o'r mathau o weithgareddau y gellid disgwyl i'r Ymddiriedolaeth yng Nghymru ymgymryd â nhw. Felly mae llawer o waith yn cael ei wneud a bydd angen i swyddogion fwrw ymlaen â'r gwaith gyda Chadeirydd/Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth y DU.

Mae Atodiadau 2 a 3 yn cynnwys Amcanion yr Ymddiriedolaethau ac opsiynau cyflenwi gwasanaeth drafft.

Y berthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Cynulliad

11. Tra bo'r Ymddiriedolaeth yn gwmni preifat, annibynnol, bydd y Cynulliad yn dylanwadu ar ei gweithgareddau trwy:

- bresenoldeb cyfarwyddwr anweithredol ar y Bwrdd;
- y targedau a nodwyd yn y cynllun cyflenwi gwasanaeth yng Nghymru;
- y Cadeirydd/Prif Weithredwr yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad (yn cynnwys y Pwyllgor Datblygu Economaidd) ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru;
- y Rheolwr dros Gymru yn adrodd yn ôl wrth Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth y DU; a
- chydlynu'r gweithgareddau â rhai y Cynulliad a chyflenwyr gwasanaethau eraill yng Nghymru.

Ar hyn o bryd mae'r swyddogion yn ystyried, yn fewnol a chyda'r DETR, lefelau a natur y rheolau ariannol y bydd rhaid eu cyflwyno.

Cydymffurfio

8. Y DETR sy'n "arwain" wrth sefydlu'r Ymddiriedolaeth Carbon. Maent yn dibynnu ar adran 5 y Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965. Gall y Cynulliad ddibynnu ar adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru i ystyried a chyflwyno sylwadau ar gynigion y DETR ar gyfer yr Ymddiriedolaeth. O dan y gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999 mae gan y Cynulliad swyddogaeth ar y cyd â'r DETR o ran adran 5. Gall y Cynulliad ddibynnu ar y pŵer ar y cyd hwnnw a'i bwerau atodol o dan adrannau 40 a 50 Deddf Llywodraeth Cymru i sicrhau aelodaeth o'r Ymddiriedolaeth. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â chysondeb a phriodoldeb.

Goblygiadau Ariannol

14. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad o ganlyniad i'r cyflwyniad hwn. Roedd y Gyllideb a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 7 Rhagfyr yn cynnwys £1.5 miliwn ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Carbon yn 2001-02, 2002-03 a 2003-04. Cysylltwyd â'r Adain Cynllunio Ariannol ynghylch y cyflwyniad hwn ac mae'n fodlon â'r agweddau ariannol.

Themâu trawsbynciol

15. Mae'r cynigion ar gyfer Ymddiriedolaeth Carbon Cymru yn cyd-fynd â pholisi Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad sydd, ymhlith pethau eraill, yn ymrwmo'r Cynulliad i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer twf mewn sectorau datblygu cynaliadwy e.e. technolegau egni effeithlon a mwy o effeithlonrwydd egni mewn busnes. Mae Rhoi Cymru'n Gyntaf hefyd yn ymrwymedig i "... hybu Cymru fel arweinyddol bydol mewn arferion da amgylcheddol". Wrth ystyried y cynigion ar gyfer gweithredu'r

Ymddiriedolaeth yng Nghymru rhaid ystyried adolygiad y Pwyllgor o gefnogaeth i fusnes. Yn y cyd-destun hwn mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig cyfle i gyflwyno ffocws newydd, a chyllid newydd sylweddol, i'r maes cefnogi busnes yma. Mae'n hanfodol fod yr Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau presennol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan brynu gwasanaethau i mewn fel bo'n briodol, i uchafu'r buddiannau i Gymru. Bydd sefydlu cangen Gymreig yr Ymddiriedolaeth yn hwyluso hyn. Hefyd, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ystyried datblygiad fframwaith ynni strategol gan y Cynulliad maes o law.

Gweithred

16. Gofynnir i'r Pwyllgor: :

- i. nodi'r cynnydd a'r datblygiadau wrth sefydlu'r Ymddiriedolaeth ar lefel DU a Chymru;
- ii. gyflwyno sylwadau am y nodau arfaethedig, a'r camau gweithredu i wireddu'r nodau hynny a nodir ym mharagraff 8 uchod a'r amcanion drafft a nodir yn Atodiad 2 a 3.

Pwynt Cyswllt

ROB HOLT

Adain Cystadleuaeth ac Isadeiledd